**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA-RE-5315-24

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddL@senedd.cymru

30 Mai 2024

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Deddf Caffael (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024**

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod bellach wedi rhoi fy nghydsyniad i Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet i wneud Rheoliadau Deddf Caffael (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater hwn sydd ar gael yn:

WS-LD16511 - Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024

Er mwyn gweithredu'r drefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 ("y Ddeddf"), mae angen gosod Rheoliadau Cychwyn o dan adran 127 o'r Ddeddf er mwyn rhoi'r dyddiad y bydd y drefn newydd yn dod i rym yn gyfreithiol. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y Rheoliadau Cychwyn hyn yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf ac felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn dirymu'r rheoliadau presennol, ac maent yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n nodi sut y bydd y rheoliadau presennol yn cael eu disodli yn raddol a sut yr ymdrinnir â chaffael parhaus a chontractau presennol yn ystod y cyfnod trosiannol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i'r Rheoliadau Cychwyn hyn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.